Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Rhaglen Gyfalaf y Loteri

# Canllaw Cyffredinol

Tachwedd 2021

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n darparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg os gofynnir amdani.

Os oes gennych unrhyw anghenion o ran mynediad ac rydych yn ystyried cyflwyno cais, gallwn helpu i sicrhau y cewch gefnogaeth yn ystod y broses ymgeisio. Cysylltwch â ni ar cyfalaf@celf.cymru i drafod sut y gallwn helpu.

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru bolisi cyfle cyfartal ar waith.

Beth i'w wneud os na allwch chi dderbyn arian o'r Loteri Genedlaethol

Os nad ydych chi'n gallu derbyn arian Loteri Genedlaethol am unrhyw resymau, dylech chi lanlwytho llythyr gyda'ch cais yn esbonio pam mae hyn yn wir. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn ni'n ceisio ariannu eich prosiect o arian o ffynonellau eraill.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | 4 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Beth yw diben arian Cyfalaf y Loteri? | 5 |
| Pwy all wneud cais | 7 |
| Yr hyn y gallwn ei ariannu | 9 |
| Yr hyn y gallwch wneud cais amdano | 11 |
| Cyllid Partneriaeth | 13 |
| Sut i wneud cais | 14 |
| Sut rydym yn gwneud penderfyniad | 16 |
| Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad | 21 |
| Os bydd eich cais yn llwyddiannus | 21 |
| Sut rydym yn monitro grantiau Cyfalaf y Loteri | 22 |
| Rhagor o Gyngor | 23 |
| Beth os oes gennyf gwestiwn? | 24 |
| Ffyrdd eraill o gysylltu â ni | 24 |

## Croeso

Diolch am eich diddordeb yng Nghyngor Celfyddydau Cymru a'n Rhaglen Gyfalaf.

Ni yw'r corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau yn rhan ganolog o fywyd a lleisant y genedl.

Un o'r ffyrdd yr ydym yn ceisio cyflawni hyn yw drwy ddosbarthu arian cyhoeddus, ac mae'r cynllun hwn yn darparu cyllid tuag at asedau cyfalaf. Caiff ei ariannu gan y Loteri Genedlaethol.

Er 1997 rydym wedi dosbarthu dros £130 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol i brosiectau cyfalaf ledled Cymru. Nid oes amheuaeth bod yr arian hwn wedi trawsnewid seilwaith celfyddydau Cymru, gan fod o fudd i weithwyr proffesiynol creadigol, sefydliadau celfyddydol a'r rhai sy'n mynychu ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau fel ei gilydd.

Ein huchelgais ar gyfer ein Rhaglen Gyfalaf yw parhau i sicrhau bod y celfyddydau yng Nghymru yn gweld manteision mawr o fuddsoddiadau cyfalaf. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod gan sefydliadau celfyddydol yng Nghymru adeiladau a chyfarpar sy'n addas at y diben sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial a'u gwneud yn fwy gwydn. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth benodol i sefydliadau sy'n rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru.

## Cyflwyniad

Dylai'r canllawiau hyn roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud cais am arian Cyfalaf y Loteri. Dylid eu darllen ochr yn ochr â'n Strategaeth Gyfalaf 2012-2017 sy'n parhau i fod yn ddilys ac yn nodi'r hyn yr ydym am i arian Cyfalaf y Loteri ei gyflawni.

Yn y canllawiau hyn drwyddynt draw byddwn yn sôn am “eich prosiect”. Rydym yn defnyddio'r term hwn i ddisgrifio'r hyn rydych chi'n gwneud cais i ni amdano. Er enghraifft, gallai eich prosiect ymwneud â phrynu cyfarpar sain a goleuo newydd ar gyfer theatr. Byddwn hefyd yn siarad am “ganlyniadau prosiect”. Rydym yn defnyddio'r term hwn i ddisgrifio'r hyn fydd yn digwydd os bydd eich cais yn llwyddiannus a bod eich prosiect yn mynd yn ei flaen. Er enghraifft, gallai'r canlyniadau ar gyfer prosiect prynu cyfarpar sain a goleuo newydd ar gyfer theatr olygu bod modd llwyfannu mwy o gynyrchiadau, a allai yn ei dro arwain at fwy o incwm.

Gall prosiectau cyfalaf fod yn gymhleth. Gallwn roi canllawiau ychwanegol i chi ar wahanol fathau o brosiectau i'ch helpu chi. Byddwn yn cyfeirio at y rhain drwy'r ddogfen gyfan.

Bydd angen i chi siarad ag un o'n swyddogion cyn gwneud cais. Gallwn eich helpu i ganfod pwy yw'r swyddog priodol y dylech siarad ag ef.

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y ddogfen hon, ein Strategaeth Gyfalaf a'n canllawiau ychwanegol mor gynhwysfawr a chyfoes â phosibl. Os bydd yn rhaid i ni newid unrhyw ran o'r Rhaglen Gyfalaf byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ein gwefan.

### Fformatau Amgen a Hygyrch

Weithiau mae rhesymau penodol pam mae pobl yn ei chael hi'n anodd gwneud cais am grant neu gael mynediad at ein gwasanaethau. Os bydd rhwystrau, neu os byddwch yn rhagweld unrhyw rwystrau gyda'n proses gwneud cais, os bydd angen help arnoch i wneud cais, neu i gael mynediad at ein gwasanaethau a'n gwybodaeth, cysylltwch â ni i drafod y math o gymorth y gallwn ei ddarparu.

### Y Galw am Gyllid

Gwyddom y bydd y galw am arian Cyfalaf y Loteri yn uchel, ac yn anffodus mae yna lawer o geisiadau da nad ydym yn gallu eu cefnogi oherwydd nad oes digon o arian ar gael. Rydym yn gwneud ein penderfyniadau ar sail y wybodaeth a roddwch yn eich cais, yn ogystal â'n blaenoriaethau strategol, yr hyn a wyddom am eich sefydliad a'ch prosiectau blaenorol.

Gallwch ddarllen mwy am ein blaenoriaethau strategol yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Ni allwn gefnogi popeth, felly wrth gynllunio eich prosiect cyfalaf, dylech feddwl am yr hyn y byddech yn ei wneud os na fydd cais yn llwyddiannus, neu os cewch gynnig llai o arian nag y gwnaethoch gais amdano.

## Beth yw diben arian Cyfalaf y Loteri?

Gellir gwario arian Cyfalaf y Loteri ar asedau cyfalaf. Mae asedau cyfalaf yn cynnwys adeiladau, cyfarpar a cherbydau. Gallwch wneud cais am arian Cyfalaf y Loteri i brynu, uwchraddio ac adnewyddu asedau cyfalaf. Mewn achosion eithriadol pan fydd prosiect yn cyd-fynd yn rhagorol â'n blaenoriaethau strategol, gallwch wneud cais am gyllid i adeiladu asedau cyfalaf newydd.

Os ydych yn gwneud cais am arian Cyfalaf y Loteri i wella ased sy'n bodoli eisoes, bydd angen i chi ddangos y bydd y buddsoddiad hwn yn ymestyn oes yr ased, yn cynyddu ei gapasiti neu'n gwella ei ansawdd. Er enghraifft, gallai'r theatr sy'n gwneud cais am arian Cyfalaf y Loteri tuag at gyfarpar sain a goleuo newydd ddweud y bydd y prosiect yn gwella ansawdd y lleoliad gan y bydd yn cynnig profiad gwell i aelodau'r gynulleidfa ac yn fwy deniadol i gwmnïau cynhyrchu.

## Y gwahaniaeth yr hoffem ei wneud

Rydym am i'n buddsoddiad wneud gwahaniaeth. Felly, mae'n rhaid i'r holl arian yr ydym yn ei ddosbarthu ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Ein nod yw ailadeiladu Cymru greadigol lle mae ein talentau gorau yn cael eu datgelu, eu meithrin a'u rhannu; gwlad lle mae'r croestoriad ehangaf posibl o bobl yng Nghymru yn gallu mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt; gwlad lle mae gwaith rhagorol yn cael ei werthfawrogi, ei ddiogelu a'i gefnogi i dyfu. Disgrifir hyn yn fanylach yn ein cynllun corfforaethol, Er budd pawb.

Mae dwy flaenoriaeth yn sail i'r strategaeth hon, sef:

1. Hybu Cydraddoldebau fel sylfaen i ymrwymiad clir i gyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru.

2. Cryfhau Gallu a Gwytnwch y sector, gan alluogi doniau creadigol i ffynnu

Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi cam pellach i gefnogi cyflawni'r ddwy flaenoriaeth hon:

3. Galluogi i Gyngor y Celfyddydau weithio'n fwy effeithiol, gan gydweithio'n fwy dychmygus â phartneriaid o'r un feddwl ledled Cymru

Rhaid i grantiau Cyfalaf y Loteri a roddir gennym ein helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Mae ein Strategaeth Gyfalaf yn dangos sut y byddwn yn targedu ein buddsoddiad drwy nodi'r blaenoriaethau cyllido penodol ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf. Rydym wedi eu crynhoi yma, ond dylech ddarllen y Strategaeth Gyfalaf i gael mwy o wybodaeth.

1. Datblygu seilwaith y celfyddydau - rydym eisiau gwella gallu creadigol a threfniadol sefydliadau celfyddydol allweddol, gan eu helpu i wireddu potensial eu cyfleusterau yn llawn. Byddwn yn canolbwyntio ar aelodau Portffolio Celfyddydau Cymru, ond rhoddir ystyriaeth i brosiectau sy'n strategol arwyddocaol ar sail eithriadol.

2. Cwblhau'r seilwaith cenedlaethol - erys nifer bach o fylchau daearyddol a diwylliannol allweddol yn y ddarpariaeth a byddwn yn ystyried prosiectau sy'n bodloni'r angen hwn.

3. Cynnal safon y seilwaith - rydym eisiau helpu lleoliadau a chyfleusterau presennol i gadw eu safon, a fydd, yn ei dro, yn eu helpu i ffynnu.

4. Gwella hyfywedd a chynaliadwyedd sefydliadau celfyddydol allweddol - rydym eisiau buddsoddi mewn mentrau cyfalaf â gogwydd entrepreneuraidd a masnachol sydd wedi'u cynllunio i gynyddu incwm a lleihau costau. Mae gennym

ddiddordeb arbennig mewn prosiectau sy'n cyfuno partneriaeth â chydweithio rhwng gwahanol sefydliadau

5. Adnewyddu a'r diwydiannau creadigol - byddwn yn cefnogi prosiectau creadigol sy'n rhan o raglenni adnewyddu ehangach sy'n helpu i ddatblygu a thyfu economi celfyddydau Cymru. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn datblygu gweithleoedd creadigol lle mae angen clir yn y farchnad a model busnes sy'n gynaliadwy'n ariannol.

6. Arfogi'r celfyddydau i ffynnu - byddwn yn helpu sefydliadau i gael yr offer cywir ar gyfer yr heriau creadigol sydd o'u blaenau. Ein blaenoriaeth fydd sefydliadau neu brosiectau sy'n rhan o'r seilwaith celfyddydau neu sy'n chwarae rhan bwysig wrth ei gefnogi, gan gynyddu hygyrchedd i'r celfyddydau ledled Cymru

Byddwn yn defnyddio'r blaenoriaethau hyn i'n helpu i wneud penderfyniadau ar geisiadau am arian Cyfalaf y Loteri..

## Pwy all wneud cais

Dim ond sefydliadau all wneud cais am arian Cyfalaf y Loteri.

Cyn datblygu eich cais, rhaid i chi wirio bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais.

Er mwyn gallu ymgeisio, rhaid i'ch sefydliad, a'r prosiect yr ydych yn gwneud cais amdano, fod wedi'i leoli yng Nghymru.

Rhaid bod gennych:

- O leiaf ddau gyfarwyddwr/ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad

- Dogfen lywodraethu ysgrifenedig megis cyfansoddiad, gweithred ymddiriedolaeth, neu erthyglau cymdeithasu (oni bai eich bod yn gorff statudol fel cyngor tref, awdurdod lleol, corff iechyd neu brifysgol). Rhaid i'ch dogfen lywodraethu:

    - ddangos bod darparu gweithgaredd celfyddydol yn un o'ch amcanion, a

    - chynnwys cymal diddymu priodol sy'n nodi beth fyddai'n digwydd i weddill asedau eich sefydliad (ar ôl talu'r holl ddyledion a rhwymedigaethau), pe bai'n peidio â bodoliA track record of delivering arts activity for audiences or participants

- Hanes o ddarparu gweithgaredd celfyddydol i gynulleidfaoedd neu gyfranogwyr

- Polisi Cyfle Cyfartal sydd wedi'i adolygu gan eich corff llywodraethu yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Rhaid i'r polisi hwn ddangos bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu yn eich rhaglen artistig ac yn eich cynlluniau a'ch gweithrediadau o ddydd i ddydd.

- Cyfrif banc yn enw eich sefydliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i o leiaf ddau berson awdurdodi trafodion (Cyfeirir at y rhain fel llofnodwyr y cyfrif fel rheol).

Ni fyddwch yn gallu gwneud cais am gyllid os ydych wedi torri unrhyw gytundeb ariannol â Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae llawer o wahanol sefydliadau yng Nghymru sy'n gymwys i wneud cais am arian Cyfalaf

y Loteri. Nid oes gennym yr adnoddau i ariannu pob un ohonynt, felly rydym wedi penderfynu blaenoriaethu aelodau o Bortffolio Celfyddydau Cymru.

Drwy ganolbwyntio arian Cyfalaf y Loteri ar gefnogi aelodau o Bortffolio Celfyddydau Cymru rydym yn sicrhau dull cydgysylltiedig o ddatblygu a thyfu'r celfyddydau ar gyfer sefydliadau celfyddydol allweddol Cymru.

Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y byddwn yn ystyried ariannu sefydliad nad yw'n rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru sy'n chwarae rhan strategol yn y gwaith o fynd i'r afael â'n blaenoriaethau, neu lle rydym o'r farn ei fod o gryn bwysigrwydd strategol yn lleol. Os ydych yn credu bod y disgrifiad hwn yn berthnasol i'ch sefydliad chi, rhaid i chi drafod hyn gyda ni cyn cynllunio cais am arian Cyfalaf y Loteri.

## Nodyn am lywodraethu

Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb o ddosbarthu arian cyhoeddus o ddifrif, a dyna pam mae'r ffordd yr ydych yn rhedeg eich sefydliad yn bwysig i ni. Rhaid i ni sicrhau bod eich sefydliad yn gadarn ac yn gallu rheoli grant yn briodol. Ni fyddwn yn dyfarnu grant os gwelwn fod risg na fydd arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Mae sicrhau eich bod yn bodloni ein gofynion cymhwysedd yn un o'r ffyrdd yr ydym ei defnyddio i wneud hyn. Os nad ydych erioed wedi gwneud cais i ni am gyllid o'r blaen:

- bydd angen i chi uwchlwytho copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen lywodraethu i'n porth ceisiadau ar-lein

Os ydych wedi gwneud cais i ni am gyllid yn y gorffennol:

- dim ond os nad ydych wedi cyflwyno dogfen lywodraethu wedi'i llofnodi i ni yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, neu, os yw wedi'i diweddaru ers i chi wneud cais ddiwethaf, y bydd angen i chi uwchlwytho copi.

Os nad ydych erioed wedi gwneud cais i ni am gyllid o'r blaen bydd angen i chi hefyd uwchlwytho prawf bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad, ble mae'n ofynnol i o leiaf ddau berson awdurdodi trafodion, i'n porth ymgeisio ar-lein.Mae rhagor o wybodaeth am gyflwyno eich dogfen lywodraethu a chyflwyno prawf o'ch cyfrif banc ar gael yn y Nodiadau Cymorth sy'n eich arwain drwy'r broses o lenwi eich ffurflen gais.

## Yr hyn y gallwn ei ariannu

**Nodwch y dylech edrych ar ein gwefan cyn gwneud cais, oherwydd yn dibynnu ar y gyllideb sydd ar gael i ni, gall rhai elfennau o'n rhaglen gyfalaf fod ar gau i geisiadau.**

Yn yr un modd, gallwn benderfynu canolbwyntio ar rai meysydd allweddol er mwyn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau ar unrhyw adeg benodol.

Adeg ysgrifennu'r nodiadau canllaw ychwanegol hyn roedd ein blaenoriaethau'n cynnwys:

- Gwella mynediad
- Mentrau ynni cynaliadwy
- Mân addasiadau i adeiladau mewn ymateb i Covid-19

Fel y gallwch ddychmygu, gall y rhain newid ac felly cyn dechrau ar eich cais dylech gyfeirio at y tudalennau cyllido ar ein gwefan i weld y rhestr ddiweddaraf o flaenoriaethau er mwyn sicrhau bod eich prosiect yn cyd-fynd ag un ohonynt.

Nod ein Rhaglen Gyfalaf yw cefnogi ystod eang o brosiectau, ond mae rhai pethau na allwn eu hariannu.

Nid ydym yn darparu arian Cyfalaf y Loteri ar gyfer:

- Prynu offerynnau cerdd
- Lleoliadau sy'n eiddo i, ac yn cael eu gweithredu gan, awdurdodau lleol ac nad ydynt wedi'u nodi fel blaenoriaethau strategol
- Prosiectau adeiladu ysgolion (oni bai eu bod yn llenwi bwlch a nodwyd yn strategol yn narpariaeth y celfyddydau)
- Arddangosfeydd parhaol o waith celf, crefft neu ddehongliad hanesyddol

Rydym wedi ariannu rhai mathau o brosiectau a sefydliadau yn y gorffennol sydd bellach yn cael llai o flaenoriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynlluniau adeiladu newydd nad ydynt wedi'u nodi fel rhan o'r seilwaith cenedlaethol.

- Credwn fod rhoi mwy o bwyslais ar adnewyddu a gwella cyfleusterau presennol yn ffordd o sicrhau bod arian Cyfalaf y Loteri yn cael yr effaith fwyaf posibl.

- Cyfleusterau cymunedol amlddefnydd.

- Rydym am ganolbwyntio ein buddsoddiad Cyfalaf y Loteri ar sefydliadau a chyfleusterau celfyddydau allweddol. Dim ond os gallant ddangos budd sylweddol i'r cyhoedd yn ymwneud yn benodol â'r celfyddydau, a chynnig gwerth am arian o ran lefel arian Cyfalaf y Loteri y gwneir cais amdano, y byddwn yn ystyried ceisiadau gan gyfleusterau cymunedol amlddefnydd..

Efallai na fyddwn yn gallu ariannu'r holl gostau sy'n rhan o'ch prosiect cyfalaf. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y gallwn ac na allwn dalu amdano.

Enghreifftiau o gostau y gallwn eu hystyried:

- Adnewyddu ac uwchraddio cyfarpar, a phrynu mathau newydd o gyfarpar

- Prynu cerbydau ar gyfer cwmnïau cynhyrchu

- Gwella ac adnewyddu lleoliadau a chyfleusterau celfyddydol presennol

- Gwella cyfleusterau a phrynu cyfarpar a fydd yn gwella hygyrchedd eich lleoliad a'ch cyfleusterau yn benodol

- Ffioedd proffesiynol, ar yr amod ein bod yn ystyried bod eu harbenigedd yn hanfodol ar gyfer eich prosiect, a bod penodiadau wedi'u gwneud gan ddefnyddio llwybr caffael priodol

- Comisiynu artistiaid neu grefftwyr i ymuno â'ch tîm dylunio

- TAW na allwch ei adennill gan Gyllid a Thollau EM (CThEM), (a elwir yn “TAW anadferadwy”)

- Costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'ch prosiect cyfalaf

- Y gost o orfod cau neu adleoli yn ystod eich prosiect cyfalaf, a chost cynnal eich gwaith yn rhywle arall dros dro

- Cronfa wrth gefn

Enghreifftiau o gostau na fyddwn yn eu hariannu fel arfer:

- Unrhyw gostau yr ydych wedi'u talu neu wedi cytuno i'w talu cyn i ni dderbyn eich ffurflen derbyn grant wedi'i llofnodi (a elwir yn "gostau ôl-weithredol")

- Costau rhedeg a gorbenion, megis cost yswiriant a gwaith cynnal a chadw

- Costau gweinyddol, megis costau cyfrifyddu, marchnata ac unrhyw ffioedd a godir arnoch am help i gwblhau'r ffurflen gais

- Nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys ymgynghorwyr a chontractwyr nad ydynt wedi'u penodi drwy lwybr caffael priodol

Rhaid i chi sicrhau eich bod wedi ymchwilio'n dda i gyllideb eich prosiect a'i bod yn briodol i natur a maint eich prosiect cyfalaf. Ni fyddwn yn cynyddu lefel ein cyllid os bydd y costau'n cynyddu ar ôl i'ch prosiect gael ei roi ar waith.

Rydym am i arian Cyfalaf y Loteri helpu ein sefydliadau celfyddydau allweddol i ddod yn fwy cynaliadwy a gwydn yn ariannol. Os credwch y bydd eich prosiect gorffenedig yn cael effaith ar eich anghenion refeniw hirdymor, rhaid i chi, a'ch holl randdeiliaid, ystyried hyn yn llawn cyn gynted â phosibl yn ystod cam datblygu'r prosiect. Ni allwch gynnwys y costau refeniw ychwanegol hyn yn eich cais am arian Cyfalaf y Loteri, ac ni ddylech dybio y byddwn yn gwneud unrhyw gyfraniad at y costau hyn o ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael i ni.

## Yr hyn y gallwch wneud cais amdano

Gallwch wneud cais am dri math gwahanol o arian Cyfalaf y Loteri. Rydym yn galw'r rhain yn "elfennau". Rydym yn glir iawn am yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni mewn perthynas â phob un o'r rhain, a sut y byddant yn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Y tair elfen yw:

- Prynu Cyfarpar
- Prosiectau Cyfalaf Bach
- Prosiectau Cyfalaf Mawr

Rydym yn defnyddio'r term "prosiectau cyfalaf" yma i gyfeirio at geisiadau sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu. Mae rhai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau y gallwch wneud cais amdanynt i'w gweld isod.

Mae swm y cyllid y gallwch wneud cais amdano yn wahanol ar gyfer pob elfen. Mae'r elfen yr ydych yn gwneud cais amdani, a'r swm yr ydych yn gwneud cais amdano yn effeithio ar sut yr ydych yn gwneud cais. Byddwn yn dweud mwy wrthych am hyn a'n gofynion ariannu partneriaeth yn nes ymlaen yn y canllawiau hyn.

## Prynu Cyfarpar

Gallwch wneud cais ar gyfer yr elfen hon i ddisodli neu uwchraddio cyfarpar, neu i brynu cyfarpar newydd a fydd yn gwella'r gwaith rydych chi'n ei wneud eisoes. Mae sicrhau bod gan sefydliadau celfyddydol ddigon o gyfarpar o safon uchel yn hanfodol er mwyn eu galluogi i gyflawni gweithgaredd celfyddydol o ansawdd uchel.

Uchafswm y grant y gallwch wneud cais amdano ar gyfer prynu cyfarpar yw £100,000.

Rydym yn disgwyl y bydd ceisiadau am hyd at £50,000 yn geisiadau ar gyfer prosiectau cymharol fach fel prynu:

- Systemau goleuo a sain ar gyfer theatr
- Cyfarpar technegol ar gyfer arddangosfeydd
- Systemau swyddfa docynnau
- Lloriau dawnsio cludadwy
- Cerbydau ar gyfer cwmnïau cynhyrchu

Bydd ceisiadau am hyd at £100,000 ar gyfer prosiectau adnewyddu cyfarpar mwy uchelgeisiol,

er enghraifft:

- Adnewyddu'r holl gyfarpar sain a goleuo
- Cyflwyno cyfleuster taflunio digidol
- Adnewyddu cyfarpar ar gyfer cynyrchiadau llwyfan

## Prosiectau Cyfalaf Bach gan gynnwys Ailwampio Adeiladau

Gallwch wneud cais am yr elfen hon ar gyfer prosiectau adeiladu bach annibynnol. Disgwyliwn i'r prosiectau hyn helpu sefydliadau celfyddydol i gynnal safonau eu darpariaeth a'u helpu i ymateb i gyfleoedd newydd. Efallai y byddant yn eu galluogi i gynyddu eu capasiti, cyflawni eu potensial neu wella ansawdd y gwaith a wnânt; elfennau sydd oll yn gallu cyfrannu at eu gwytnwch yn y dyfodol.

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau y gallech wneud cais amdanynt:

- Addasu ystafelloedd taflunio ffilm er mwyn gallu defnyddio technolegau newydd

- Ailwampio cyfleusterau arlwyo
- Uwchraddio ardaloedd blaen tŷ
- Gwelliannau effeithlonrwydd ynni a mentrau amgylcheddol eraill
- Gwella'ch adeilad a'ch cyfleusterau a fydd yn gwella ei hygyrchedd yn benodol
- Mân addasiadau i adeiladau mewn ymateb i Covid-19 gan gynnwys arwyddion a gwella cylchrediad aer

Yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano ar gyfer Prosiect Cyfalaf Bach yw

£100,000.

### Prosiectau Cyfalaf Mawr

Gallwch wneud cais am yr elfen hon ar gyfer gyllid tuag at brosiectau adeiladu sylweddol. Dim ond nifer fach o geisiadau a ganiateir ar gyfer yr elfen hon, a byddant yn brosiectau o gryn bwysigrwydd strategol, er enghraifft mynd i'r afael â bylchau cenedlaethol yn y ddarpariaeth.

Mae ceisiadau am Brosiectau Cyfalaf Mawr ar gyfer £100,000 neu fwy. Byddwn yn ymwneud yn agos â'r gwaith cynllunio a datblygu ar gyfer Prosiectau Cyfalaf Mawr, a byddwn yn trafod gyda chi yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.

Mae'n debygol y bydd angen i chi wneud sawl cais ar wahân ar gyfer gwahanol gamau eich prosiect.  Mae gennym ganllawiau ychwanegol ar gyfer Prosiectau Cyfalaf Mawr sy'n amlinellu'r broses yr ydym yn ei dilyn ar gyfer y prosiectau hyn a'n gofynion. Bydd y rhain yn eich helpu gyda'ch gwaith cynllunio.lanning.

## Cyllid Partneriaeth

Rydym am sicrhau bod arian Cyfalaf y Loteri yn cael cymaint o effaith â phosibl, ac rydym am ei weld yn ategu ac yn gwella'r cyllid sydd ar gael i'r celfyddydau o ffynonellau eraill. Bydd y dull cydgysylltiedig hwn yn helpu i gryfhau hyfywedd ariannol ein sefydliadau celfyddydol allweddol.

Byddwn yn disgwyl i chi ategu'r cyfraniadau at eich prosiect o'ch cronfeydd eich hun, o incwm a enillir a chan bartneriaid cyllido eraill. Mae cael arian o ffynonellau eraill yn dangos i ni bod ymrwymiad eang i'ch prosiect. Mae hefyd yn dangos i ni bod rhanddeiliaid eraill yn cytuno bod eich prosiect yn diwallu angen ac y bydd o fudd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Pan fyddwn yn asesu eich cais, byddwn yn ystyried a yw cyfran y cyllid o ffynonellau eraill yn briodol i natur a maint eich prosiect. Rydym yn fwy tebygol o gefnogi prosiectau sy'n cael eu hariannu o ystod o ffynonellau, yn hytrach na'r rhai sy'n ystyried mai ni yw'r prif gyllidwr.

Yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano yw 75% o gostau cymwys eich prosiect. Mae'n debygol y bydd ein cyfraniad gryn dipyn yn llai yn y rhan fwyaf o achosion.

Os ydych yn gwneud cais am brosiect amlddefnydd yr ydym wedi cytuno ei fod o bwysigrwydd strategol, ac a fydd yn arwain at fudd cyhoeddus sylweddol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r celfyddydau, yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano yw 50% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect.

Gall ffynonellau cyllid eraill gynnwys:

- Incwm a enillir
- Eich cronfeydd eich hun, ond ni ddylai'r rhain ddod o unrhyw un o'n ffrydiau cyllido eraill
- Incwm o weithgaredd codi arian ac apeliadau cyhoeddus
- Cyfraniadau arian parod gan bartneriaid eraill yn y prosiect, megis prifysgolion ac awdurdodau lleol
- Cronfeydd strwythurol a buddsoddi'r llywodraeth
- Grantiau gan sefydliadau eraill fel ymddiriedolaethau a sefydliadau
- Cyllid arall gan y Loteri (ond mae'n rhaid i o leiaf 10% o'r cyllid ar gyfer eich prosiect ddod o ffynhonnell heblaw y Loteri)
- Cyfraniadau mewn nwyddau o hyd at 10% o gyfanswm cost y prosiect (e.e. gwaith gan wirfoddolwr di-dâl, cael tir, adeiladau neu gyfarpar yn rhodd, ar yr amod eu bod wedi'u prisio'n briodol. Nid yw gostyngiadau yn gymwys)

## Sut i wneud cais

Rhaid i chi siarad ag un o'n Swyddogion cyn cyflwyno eich cais. Gallwn eich helpu i ddod o hyd i'r Swyddog priodol i siarad ag ef.

Fel rheol nid oes gan y Rhaglen Gyfalaf derfynau amser. Ar yr amod eich bod wedi trafod eich prosiect â Swyddog gallwch gyflwyno eich cais ar unrhyw adeg. Os oes terfynau

amser ar gyfer elfennau penodol o'r cyllid, bydd y rhain i'w gweld ar ein gwefan ynghyd ag unrhyw wybodaeth bellach.

## Sut i wneud cais am fwy na £50,000

Os hoffech wneud cais am fwy na £50,000 tuag at brosiect cyfalaf rydym yn defnyddio proses dau gam i wneud penderfyniad ynghylch a fyddwn yn derbyn cais ar gyfer mwy na £50,000. Rydym yn gwneud hyn fel y gallwch brofi a ydym yn debygol o gefnogi eich prosiect heb orfod treulio llawer o amser yn datblygu cais cyflawn. Mae hyn hefyd yn ein helpu i gynllunio a dyrannu ein hadnoddau yn briodol.

Yn gyntaf, byddwn yn gofyn i chi roi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol i ni am eich prosiect. Bydd ein Pwyllgor Cyfalaf yn edrych ar ansawdd eich cynnig ac a yw'n cyd-fynd yn dda â'n blaenoriaethau strategol. Os yw'ch prosiect yn bodloni ein gofynion, cewch eich gwahodd i wneud cais am gyllid.

Wrth ystyried y ffigur hwn o £50,000, dylech amcangyfrif y cyfanswm y gallech wneud cais amdano dros wahanol gamau cais cyfalaf mawr. Bydd y mwyafrif o brosiectau mawr yn gofyn i chi gyflawni'r cam cychwynnol hwn.

Cofiwch nad yw cael eich gwahodd i wneud cais yn gwarantu y bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu i chi.

## Sut i wneud cais am arian ar gyfer Prosiect Cyfalaf Mawr

Prosiectau Cyfalaf Mawr yw'r rhai mwyaf cymhleth i'w datblygu a'u hasesu. Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Cyfalaf i'ch gwahodd i wneud cais am gyllid, bydd eich prosiect yn symud drwy o leiaf dri cham cyn y gall ddechrau. Yn gyntaf, byddwch yn cwblhau astudiaeth ddichonoldeb (Cam 2 RIBA), cyn symud ymlaen at ddatblygu manylion eich prosiect (Cam 3/Cydlynu Gofodol RIBA), ac yna gais am arian tuag at y gost adeiladu ei hun (Cam 4 RIBA). Rydym yn defnyddio Cynllun Gwaith 2020 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) i arwain y broses hon.

Mae ein profiad yn dangos bod y dull cam wrth gam hwn yn annog arfer gorau wrth gynllunio, caffael, rheoli a chyflawni Prosiectau Cyfalaf Mawr. Byddwn yn adolygu eich prosiect ar bob cam i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni ein meini prawf a'n blaenoriaethau strategol.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais am Brosiect Cyfalaf Mawr yn ein nodiadau canllaw ychwanegol sydd ar gael yma.

## Pa mor aml y gallwch wneud cais

Gallwch wneud un cais i'r Rhaglen Gyfalaf ym mhob blwyddyn galendr. Gallwn wneud eithriad os ydych yn datblygu Prosiect Cyfalaf Mawr ac yn gwneud cais am gyllid tuag at astudiaeth ddichonoldeb neu grant datblygu.

Y broses ymgeisio

- Bydd angen i chi ddefnyddio ein 'porth' ar-lein i wneud cais. Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, bydd angen i chi gofrestru i gael mynediad i'r porth. Gallwch ddarganfod sut i wneud hyn yma

- Llenwch a chyflwynwch ffurflen gais ar-lein ar ein porth. Os na allwch gael mynediad i'r ffurflen ar-lein neu os oes angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â ni yn grantiau@celf.cymru Ar ôl i ni dderbyn eich cais, byddwn yn anfon cydnabyddiaeth atoch.

- Byddwn yn gwirio eich cymhwysedd. Byddwn hefyd yn adolygu cyllideb eich prosiect i sicrhau bod y ffigurau'n gywir. Os oes unrhyw wybodaeth ar goll, byddwn yn cysylltu â chi. Bydd gennych hyd at 5 diwrnod gwaith i ddatrys unrhyw broblemau.

- Os yw'ch cais yn gymwys, bydd yn mynd ymlaen i'r cam asesu.

## Sut rydym yn gwneud penderfyniad

Rydym yn asesu pob cais cymwys yn erbyn yr un meini prawf. Mae'r meini prawf yn ein helpu i ystyried y materion allweddol sy'n ymwneud â'ch prosiect.

Y meini prawf a ddefnyddiwn yw:

- Ein blaenoriaethau ar gyfer cyllid

- Diwallu angen a nodwyd

- Cyflawni prosiect o ansawdd uchel

- Budd i'r cyhoedd

- Sicrhau bod eich prosiect yn gwbl hygyrch

- Dangos eich cryfderau a'ch cynaliadwyedd

- Cynllunio a rheoli prosiect yn llwyddiannus

- Ariannu prosiect yn llwyddiannus

- Rheoli risg

Mae'r rhain yn themâu eang sy'n berthnasol i bob cais am arian Cyfalaf y Loteri. Bydd y ffordd yr ymdrinnir â'r rhain yn amrywio o un prosiect i'r llall ond bydd angen i chi ystyried pob un ohonynt wrth gynllunio eich prosiect.

Mae enghreifftiau o'r materion yr ydym yn eu hystyried ar gyfer pob un o'r meini prawf wedi'u nodi isod. Dylech gofio nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a bydd materion eraill yn cael eu hystyried os ydynt yn berthnasol i'ch prosiect. Hefyd nid oes rhaid i chi fynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn yn eich cais.

## Diwallu Angen a Nodwyd

- Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud a pham?
- A yw eich prosiect yn helpu i gyflawni nodau ac amcanion eich sefydliad?
- Sut yr ydych wedi dangos yr angen am eich prosiect? A yw'n argyhoeddi?
- Gyda phwy yr ydych chi wedi ymgynghori i bennu'r angen am eich prosiect, a beth yw canfyddiadau eich ymgynghoriad?
- A yw eich prosiect yn cyfrannu at gyflawni cynllun strategol ehangach, er enghraifft, uwchgynllun, Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) neu strategaeth adfywio dan arweiniad awdurdod lleol?
- Pa mor dda y mae eich prosiect yn diwallu'r anghenion rydych chi wedi'u nodi?
- Pa mor gryf yw eich achos busnes: a yw'r angen yr ydych wedi'i nodi am eich prosiect yn cyfiawnhau faint o gyllid yr ydych yn gwneud cais amdano?

## Cyflawni prosiect o ansawdd uchel

- Sut y byddwch yn sicrhau bod eich prosiect yn addas at y diben ac y bydd yn sicrhau canlyniad o ansawdd uchel?
- Pa ymchwil ydych chi wedi'i wneud i sicrhau bod y cyfarpar yr hoffech ei brynu yn briodol i'r angen yr ydych wedi'i nodi?
- Ar gyfer prosiectau cyfalaf, sut y byddwch yn sicrhau bod eich prosiect wedi'i ddylunio'n dda?
- I ba raddau yr ystyriwyd ymarferoldeb eich prosiect cyfalaf:
    - a yw'n briodol ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig?

    - o a yw'n sicrhau'r mynediad annibynnol mwyaf posibl i bobl anabl ac yn dangos parodrwydd i osod safonau ymarfer uchel o ran hygyrchedd sy'n mynd y tu hwnt i gadw at safonau cyfreithiol gofynnol?

    - o a yw'n cynnig defnydd effeithiol ac arloesol o le?

- I ba raddau yr ystyriwyd effaith eich prosiect cyfalaf:

    - yw'n integreiddio i'w gyd-destun cymdeithasol a threfol neu wledig?

    - a yw wedi'i ddylunio'n dda o ran ei ffurf a'i gymeriad?

    - ym mha ffordd y mae'n arloesol?

- Ar gyfer prosiectau cyfalaf, a ddangosir y bydd rheoliadau adeiladu a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol yn cael eu bodloni?

- I ba raddau y mae eich sefydliad wedi ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth gynllunio a chyflawni eich prosiect?

- I ba raddau y mae eich sefydliad wedi ystyried perfformiad amgylcheddol adeiladau a chyfarpar wrth gynllunio a chyflawni eich prosiect?

- I ba raddau yr ydych wedi ystyried integreiddio gwaith celf i'ch prosiect cyfalaf mawr?

## Bod o Fudd i'r Cyhoedd

- Sut y bydd eich prosiect o fudd i bobl Cymru?

- Sut y bydd eich prosiect o fudd i'r bobl sydd eisoes yn mwynhau'r gweithgaredd celfyddydol yr ydych yn ei ddarparu, fel aelodau o'r gynulleidfa neu gyfranogwyr?

- I ba raddau y bydd eich prosiect yn helpu cynulleidfa ehangach i fwynhau'r gweithgaredd celfyddydol yr ydych yn ei ddarparu, neu'n annog pobl i gymryd rhan ynddo, mewn ffordd nad oeddet wedi'i wneud o'r blaen o bosibl?

- Sut y bydd eich prosiect yn helpu gweithwyr proffesiynol creadigol fel artistiaid a chrefftwyr i ddatblygu a chyflwyno eu gwaith?

- Sut y bydd eich prosiect o fudd i'ch staff a'ch gwirfoddolwyr?

- Sut y bydd eich prosiect yn codi safonau a / neu'n cynnal rhagoriaeth artistig y gweithgaredd celfyddydol yr ydych yn ei ddarparu?

- Sut y bydd eich prosiect yn gwella ansawdd y profiad y mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn eich gweithgaredd celfyddydol yn ei fwynhau?

- I ba raddau yr ystyriwyd sicrhau mynediad priodol i bobl anabl?

- Pa mor dda y mae anghenion pobl anabl wedi cael eu hystyried wrth ddylunio cyfleusterau newydd?

- I ba raddau yr ydych wedi ystyried marchnata canlyniadau eich prosiect i sicrhau'r cyfranogiad ehangaf posibl yn eich gweithgaredd celfyddydol?

## Sicrhau bod eich prosiect yn gwbl hygyrch

- Pa fesurau yr ydych wedi'u cymryd i sicrhau bod eich prosiect yn bodloni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb? Byddwn yn disgwyl i chi gynnal archwiliad o fynediad, neu eich bod wedi cynnal archwiliad o'r fath yn ddiweddar. Bydd angen i chi ddweud wrthym sut y byddwch yn mynd i'r afael ag unrhyw argymhellion yn eich cynnig?

## Dangos eich cryfderau a'ch cynaliadwyedd

- A ydych wedi dangos bod eich sefydliad yn gadarn ac yn cael ei reoli'n dda, ar lefel staff a chorff llywodraethu?

- A ydych wedi dangos bod eich sefydliad yn gadarn yn ariannol, a bod eich cyllid yn cael ei reoli'n dda? (Bydd sefydliadau mwy o faint yn dangos hyn yn eu Cynllun Busnes).

- A ydych wedi dangos bod eich sefydliad wedi ystyried effaith ariannol eich prosiect gorffenedig?

- A ydych wedi dangos bod eich sefydliad wedi ystyried goblygiadau cyllid refeniw eich prosiect gorffenedig yn llawn?

- A yw'ch sefydliad yn gallu talu costau yswiriant a chynnal a chadw blynyddol?

- I ba raddau y mae eich sefydliad wedi ystyried effaith y prosiect ar ei wytnwch ariannol? A ydych wedi dangos y gallai eich prosiect wneud un o'r canlynol:

    - galluogi eich sefydliad i gyflawni ei botensial

    - cynhyrchu incwm
    - cynyddu ei incwm i'r eithaf neu dorri costau
    - ei gwneud yn bosibl i roi partneriaethau a phrosiectau cydweithredol ar waith
    - ei gwneud yn bosibl i roi mentrau newydd ar waith.

- A fydd eich prosiect yn helpu eich sefydliad i wneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu o ffynonellau eraill?

## Cynllunio a rheoli prosiect yn llwyddiannus

- A ydych wedi dangos y gall eich sefydliad gyflawni eich prosiect yn llwyddiannus?
- A ydych wedi dangos bod gan eich sefydliad y sgiliau, y profiad a'r amser sydd ei angen i reoli'r prosiect yn effeithiol?
- A yw'ch sefydliad wedi dangos sut y bydd yn dwyn ynghyd dîm proffesiynol medrus a phrofiadol priodol i gyflawni eich prosiect? A fydd y tîm proffesiynol hwn yn cael ei recriwtio'n briodol, gan ddefnyddio prosesau tendro cystadleuol neu Ewropeaidd os oes angen?
- Os ydych yn cyflawni eich prosiect mewn partneriaeth, a oes eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau yr holl sefydliadau dan sylw?
- A oes cynllun clir ar gyfer adrodd ar gynnydd i'ch corff llywodraethu a'ch arianwyr, ac ar gyfer monitro a gwerthuso eich prosiect ar ôl ei gwblhau?
- Sut y bydd eich sefydliad yn sicrhau bod eich prosiect yn cael ei reoli'n dda yn ariannol?
- A yw amserlen eich prosiect yn glir ac yn gyraeddadwy?

## Ariannu prosiect yn llwyddiannus

- A yw eich cyllideb wedi'i hystyried yn ofalus ac yn briodol i faint a natur y prosiect yr ydych yn ei gyflawni?
- A yw'r cyllid arall sydd ei angen arnoch i gwblhau eich prosiect yn ei le? Os nad yw, a oes gan eich sefydliad gynllun realistig i gael gafael ar gyllid o ffynhonnell arall?

- A ydych wedi dangos bod eich sefydliad wedi codi cymaint o arian â phosibl ar gyfer eich prosiect o ffynonellau eraill?

- A yw lefel y cyllid yr ydych yn gofyn amdano gan ein Rhaglen Gyfalaf yn briodol i'ch prosiect a'r canlyniadau yr ydych yn gobeithio eu cyflawni?

### Rheoli risg

- I ba raddau y mae eich sefydliad wedi nodi a chofnodi unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect?

- I ba raddau y mae eich sefydliad wedi cymryd y camau priodol i reoli risg?

Mae gan ein Swyddogion ystod o arbenigeddau a diddordebau strategol, a byddwn yn defnyddio eu harbenigedd i'n helpu i wneud penderfyniad ar eich cais.

Ar gyfer Prosiectau Cyfalaf Mawr, a rhai o natur arbenigol iawn, byddwn yn cynnwys aseswyr allanol i'n helpu i wneud penderfyniad ar eich cais. Rydym yn defnyddio aseswyr allanol i ddarparu cyngor annibynnol, gwrthrychol ar feysydd arbenigol penodol lle mae angen arbenigedd proffesiynol ychwanegol.

## Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad

Os ydych yn gwneud cais am hyd at £50,000 tuag at brynu cyfarpar, gall Grŵp Swyddogion wneud penderfyniad ar eich cais, ond lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn gofyn i'n Pwyllgor Cyfalaf benderfynu ar bob cais.

Rhaid i'r Pwyllgor Cyfalaf ystyried pob cais arall am gyfarpar, a phrosiectau Cyfalaf Bach. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod sawl gwaith drwy gydol y flwyddyn.  Pan siaradwch ag un o'n Swyddogion gallant drafod amserlennu eich cais er mwyn cyd-fynd â dyddiadau ein cyfarfodydd.

Mae'r Pwyllgor Cyfalaf hefyd yn ystyried pob cais am Brosiectau Cyfalaf Mawr. Os yw'r cais am fwy na £250,000, bydd y Pwyllgor yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor, a fydd wedyn yn gwneud penderfyniad. Os yw'r cais am swm sy'n llai na hyn, y Pwyllgor Cyfalaf fydd yn gwneud y penderfyniad.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am aelodau'r Cyngor ar ein gwefan.

## Os bydd eich cais yn llwyddiannus

Byddwch yn cael cynnig grant yn ffurfiol drwy e-bost yn cadarnhau maint y grant ac unrhyw amodau ychwanegol (er enghraifft, cadarnhad ysgrifenedig o gyllid partneriaeth). Fe'ch cyfeirir hefyd at ein hamodau grant safonol a'n gofynion achredu a brandio.

Ni allwn wneud unrhyw daliadau nes eich bod wedi derbyn ein hamodau grant safonol. Os yw eich cais am gyllid tuag at Brosiect Cyfalaf Mawr yn llwyddiannus bydd angen i chi gytuno ar gontract cyfreithiol gyda ni. Byddwn yn gweithio gyda chi i alluogi hyn i ddigwydd.

### Os na fydd eich cais yn llwyddiannus

Os na fydd eich cais yn llwyddiannus byddwn yn esbonio'r prif resymau dros ein penderfyniad. Gallwch drafod hyn gydag aelod o'n staff os dymunwch.

## Sut rydym yn monitro grantiau Cyfalaf y Loteri

Mae'n ofynnol i ni fonitro prosiectau i sicrhau bod arian y Loteri yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl, a'i fod o fudd i gynifer o bobl â phosibl. Rydym yn gwneud hyn mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar faint a natur eich prosiect, ac efallai y bydd rhai prosiectau'n cael eu monitro'n fwy manwl nag eraill:

- Rydym yn gwneud ôl-daliadau i bob prosiect ar ôl derbyn a chytuno ar anfoneb am waith a wnaed. Mewn rhai amgylchiadau efallai y gallwn wneud rhai addasiadau i hyn a dylech drafod hyn gyda'ch Swyddog a all roi gwybod i chi beth sy'n bosibl.

- Ar gyfer prosiectau tymor hwy, byddwn yn gofyn sut mae eich prosiect yn dod yn ei flaen yn rheolaidd ar amrywiol gamau yn ystod y broses gyflawni

- Ar gyfer Prosiectau Cyfalaf Mawr byddwn yn penodi swyddogion monitro annibynnol i'n cynghori a chefnogi tîm eich prosiect. Fel arfer byddwn yn disgwyl i chi drefnu cyfarfodydd grŵp prosiect misol tra bod y prosiect ar y gweill a dylech ein gwahodd i'r holl gyfarfodydd hyn.

Efallai y byddwn yn parhau i fonitro eich prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau, tra bydd eich sefydliad yn parhau i ddefnyddio'r cyfarpar neu'r adeilad yr ydym wedi cyfrannu tuag ato.

Os na fyddwch yn bodloni ein hamodau monitro efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu Cyfalaf y Loteri. Mewn achosion eithafol efallai y bydd yn rhaid i ni gymryd camau cyfreithiol.

### Canllawiau ychwanegol ar y Rhaglen Gyfalaf

Gallwn ddarparu canllawiau ychwanegol i chi ar:We can provide you with additional guidance on:

- Brosiectau Cyfalaf Mawr

Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan.

## Rhagor o Gyngor

Mae cyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol ar gael ar ein gwefan gan gynnwys:

- Ein Cyhoeddiadau:
    - Lle Cyfartal, sy'n cynnig canllawiau arfer gorau i ddarparwyr y celfyddydau ar amrywiaeth o faterion anabledd
    - Rhoi Llwyfan i'r Iaith yn y Celfyddydau
    - Pecyn Cymorth Datblygu Dwyieithrwydd yn y Celfyddydau
    - Canllaw Syml 10 Cam i Ysgrifennu Eich Cynllun Marchnata a Chyfathrebu
    - Arweiniad Cydraddoldeb sy'n rhoi syniadau ymarferol am sut i gynyddu amrywiaeth ymhlith y rhai sy'n profi'r celfyddydau (cynulleidfaoedd) a'r rhai sy'n ymgyfranogi yn y broses o greu celfyddyd (creawdwyr)
    - Arweiniad i Gynllunio Busnes a Thempled
    - Taflen Cymhwysedd a Llywodraethu
- Gwybodaeth am ein rhaglenni cyllido eraill
- Ein cyhoeddiadau corfforaethol, strategol a'r wybodaeth ddiweddaraf
- Data ymchwil
- Enghreifftiau o brosiectau yr ydym wedi eu hariannu
- Dolenni i ffynonellau cyllid eraill
- Cyfeiriadur y Celfyddydau
- Ein Cylchlythyr a'n Ffrwd newyddion.

## Beth os oes gennyf gwestiwn?

Os hoffech drafod eich prosiect yn fwy manwl, cysylltwch â'n Tîm Cyfalaf.

Gallwch wneud hyn drwy e-bost, drwy ein gwefan neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol:

E-bost: cyfalaf@celf.cymru

Gwefan: Llenwch ffurflen ar ein gwefan

Twitter: Anfonwch neges atom ar Twitter @Celf_Cymru

Os oes gennych gwestiwn technegol, cysylltwch â'n Swyddogion Grantiau a Gwybodaeth drwy e-bost grantiau@celf.cymru neu ffoniwch 03301 242733 yna dewiswch 1, yna opsiwn 1.

## Ffyrdd eraill o gysylltu â ni

03301 242733

9.00am - 5.00pm ddydd Llun-Iau

9.00am - 4.30pm ddydd Gwener

Cysylltu â Ni

Cyngor Celfyddydau Cymru

@celf_Cymru

celfcymruarts